



CYNGOR TREF  
**AMLWCH**  
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN  
Epost/Email: [swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk](mailto:swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk)  
Ffon/Tel: 01407 832 228

**Cyngor Tref Amlwch Town Council**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Hydref 24 2017 yn Siambr y Cyngor am 7yh.  
*Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday October 24 2017 at 7pm.***

**Presennol/Present:** Gareth Winston Roberts OBE (Cadeirydd/Chair), Myrddin Owens, Mike Roberts, John Byast, Gerald Belanger, Gordon Warren, Gina Jones, Julie Hughes, Cyng/Cllr Richard Griffiths, Cyng/Cllr Richard Jones, Cyng/Cllr Aled Jones

**Yn bresennol/In attendance:** Hywel Hughes (Cyfieithu/Translation), Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Daniel Ap Eifion Jones ac aelodau o'r cyhoedd/*and members of the public.*

**Ymddiheuriadau/Apologies:** Dafydd Roberts, Meg Roberts, Liz Wood,

**1 Croeso/Welcome**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gareth W Roberts OBE ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.  
*The meeting was chaired by Gareth W Roberts OBE and all present were welcomed.*

**2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest**

Gareth W Roberts – Arolwg Tir Craig y Don *Land Survey*  
Richard Jones – Materion Cynllunio / *Planning Matters*

**3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynnig Myrddin Owens, eilio Mike Roberts.  
*The minutes were confirmed a true record. Proposed Myrddin Owens; seconded Mike Roberts.*

**4 Materion yn codi/Matters arising**

**4.1 Heddlu Gogledd Cymru / North Wales Police**

Yn dilyn trafodaeth gyda'r arolygydd ac adroddiadau diweddar yn y wasg, roedd pryder am y nifer o uwch-swyddogion yr heddlu sydd yn siarad Cymraeg. Cytuno ysgrifennu at y comisiynydd am fwy o wybodaeth.

*Following discussion with the inspector and recent press reports, there were concerns regarding the number of Welsh speaking senior officers. Agreed to write to the commissioner for more information.*

**5 Pwyllgorau Allannol/External Meetings**

**5.1 Trefi Mon**

Mae disgwyl i'r trefi gadarnhau prisiau am ychwanegu at eu systemau CCTV yn y cyfarfod nesaf cyn cyflwyno cais am arian.

*The towns are expected to confirm costs for expanding their CCTV systems at the next meeting before submitting an application for funding.*

**5.2 Neuadd Sgowntiaid Amlwch Scouts Hall**

Mae'r gwaith o drefnu prydles yn mynd yn ei flaen erbyn hyn. Mae'r gwaith o brisio'r eiddo i'w gwblhau cyn diwedd yr wythnos.

*The work to arrange a new lease is moving ahead with the valuation of the property to be completed by the end of the week.*

### **5.3 Goleuadau Nadolig/Christmas Lights**

Cafwyd grynodeb gan Gareth W Roberts o gyfarfod diweddaraf y grwp. Nododd siom bod CSYM yn datgan bod aelodau lleol yn cytuno ar gost o £600 i gau'r stryd ar gyfer y digwyddiad. Nododd Richard Jones mai cwmnïau a mudiadau mawr oedd yn gorfod talu'r swm yma, cydnabyddwyd ei fod yn swm mawr o arian i grwp cymunedol. Nodwyd siom hefyd yng ngeirio yr ebost a gafwyd gan CSYM yn nodi eu bod yn deall siom y pwyllgor ac y byddai rhaid canslo'r digwyddiad. Gofynnwyd os oedd yr aelodau lleol wedi cwrdd i drafod y cais unigol.

Wedi trafod a'r swyddogion priodol, mae Gareth W Roberts wedi cytuno ar gost o £200. Byddai yn talu £100 o'i lwfans fel Cadeirydd y Cyngor Tref, ac fe ofynnwyd i Richard Jones gyfrannu £100 o'i lwfans fel Cadeirydd y Cyngor Sir. Diolchwyd i'r ddau am eu cefnogaeth gan gytuno bod yn ddigwyddiad pwysig i'r dref a bod cau'r lon yn hanfodol.

*Gareth W Roberts gave a summary of the group's last meeting. He noted his disappointment that IACC had stated that local members had agreed on a fee of £600 to close the street for the event. Richard Jones noted that it was businesses and large organisations that were expected to pay that sum; it was acknowledged that it was a large sum of money for a community group. Disappointment was also noted in the wording of the email from IACC that they understood the committee's disappointment if the event had to be cancelled as a result. It was asked whether the members had met to consider the application on an individual basis.*

*Having spoken with the relevant officers, Gareth W Roberts has agreed on a fee of £200. He will pay £100 from his allowance as Chair of the Town Council and Richard Jones was asked to contribute £100 from his allowance as Chair of the County Council. The two were thanked for their support, agreeing that this is an important event for the town and that road closure was essential.*

### **6 Adroddiad Pwyllgor Cyllid/Finance Committee Report**

Cafwyd grynodeb gan Myrddin Owens. Cymeradwywyd nifer o daliadau (rhestr gan y cler). Bydd cyfarfod arbennig o'r pwyllgor i drafod polisiau'r cyngor i'w gynnal cyn y cyfarfod llawn nesaf.

*Myrddin Owens gave a summary of the meeting. A number of payments were approved (clerk has a list). A special meeting of the committee is to be arranged to discuss the council's policies prior to the next full council meeting.*

### **7 Adroddiad Cynllunio/Planning Report**

Cafwyd wybod am y penderfyniadau cynllunio'r Cyngor Sir fel a ganlyn:  
*County Council decisions were noted as follows:*

- 11C295D Pen Parc Mawr, Burwen – Caniatad/Granted
- 11C652 Arosfa 3 Bryngwynt - Caniatad/Granted
- 11C43E Vemar, Bull Bay - Caniatad/Granted
- 11C652 13 Quay St, Amlwch Port – Gwrthod/Refused
- 11C73E Lastra Farm Hotel - Caniatad/Granted
- 11C391C Fron, Amlwch - Caniatad/Granted
- 11C651 Mayfield Ednyfed Hill - Caniatad/Granted

### **8 Wylfa Newydd**

Nodwyd bod cyfarfod wedi ei gynnal rhwng Partneriaeth Gogledd Mon a swyddogion Horizon i drafod eu ymgynghoriad ar eu ceisiadau cynllunio diweddaraf. Nodwyd siom nad oedd y cwmni yn bwriadu gwneud unrhywbeth gyda'r lon o Gemaes at gyffordd Shell. Teimlwyd nad oedd y cwmni yn deall pa mor bwysig mae gwella'r lon i'r gymuned leol. Pa fudd mae'r ardal yn ei gael o'r datblygiad? Nododd y Cadeirydd bod angen cyd-gyfarfod gyda'r cynghorwyr sirol i drafod datblygiad Horizon er budd Amlwch.

Nodwyd bod nifer o bwyntiau yn cael eu codi gyda'r cwmni ond nad oedd atebion i'r cwestiynnau a phryderon hynnu. Teimlai'r aelodau bod y cwmni yn ymgynghori ar pob dim a bod y gymuned wedi diflasu. Cytuno bod angen i Amlwch gael budd o'r prosiect.

Cafwyd esiampI gam Myrddin Owens ble mae wedi gofyn am ganllawiau a thystiolaeth nad oedd modd i fusnesau lleol gael blaenoriaeth. Nid oes gwybodaeth wedi dod i law hyd yma.

*It was noted that a meeting had been held between the North Anglesey Partnership and Horizon's officers to discuss their consultation on their latest planning applications. Disappointment was noted that the company was not intending to make any improvements to the road between Cemaes and Shell junction. It was felt that the company did not understand how important the road improvements were to the local community. What benefit is the area getting from the development? The Chair noted that a joint meeting is required with the county councillors to discuss Horizon's development for the benefit of Amlwch.*

*It was noted that a number of points had been raised with the company but there were no answers to those questions and queries. Members felt that the company was consulting on everything and that the community was fatigued. Agreed that Amlwch had to benefit from the project.*

*Myrddin Owens gave an example where he has requested guidance and evidence that local businesses cannot be given priority. There is no information as yet.*

## **9 Mater Cyngor / Council Matter**

Esboniwyd y sefyllfa bresennol ynglyn a Daniel Jones yn dilyn ei ymddangosiad yn Llys y Goron. Cadarnhawyd bod Myrddin Owens wedi cysylltu a'r llys ar ran y Cyngor am gadarnhad swyddogol o'r gosb/dedfryd. Roedd Daniel Jones yn grediniol ei fod wedi cael cynnig dedfryd yn hytrach na chosb ariannol. Bydd gofyn i'r Barnwr gadarnhau hyn yn swyddogol. Yn ddibynnol ar yr ymateb yma, mae posib bod Daniel Jones eisioes wedi ei wahardd fel aelod o'r Cyngor a bydd angen hysbysu'r Swyddog Monitro.

Gofynnodd Gordon Warren os oedd posib gofyn i Daniel Jones ymddiswyddo. Teimlwyd bod Daniel Jones yn rhoi enw drwg i'r Cyngor ac na ddylai gynrychioli'r gymuned. Nododd Myrddin Owens nad oedd posib ymddiswyddo os eisioes wedi ei wahardd – rhaid disgwyl ymateb y Barnwr cyn cymryd camau pellach.

Caewyd y drafodaeth gan y Cadeirydd gan gytuno nad oedd posib cymryd camau pellach heb y ffeithiau cywir yn llawn gan y llys.

*The current situation regarding Daniel Jones was explained following his appearance at the Crown Court. It was confirmed that Myrddin Owens had contacted the court on behalf of the Council for official confirmation of the penalty/sentence. Daniel Jones was adamant that he had been offered a sentence in lieu of a fine. Confirmation is required from the Judge. Dependent on the response, it may be that Daniel Jones is already disqualified as a member of the Council and the Monitoring Officer will need to be notified.*

*Gordon Warren asked whether it would be possible to ask Daniel Jones to resign. It was felt that Daniel Jones gave the Council a bad name and that he should not represent the community. Myrddin Owens noted that it was not possible to resign from something if already disqualified – the Judge's response is anticipated before further action can be taken.*

*The discussion as drawn to a close by the Chair, it was agreed that no further action can be taken without the correct facts in full from the court.*

## **10 Arolwg Tir Craig y Don Land Survey**

Cafwyd adroddiad gan Myrddin Owens yn dilyn cyfarfod gyda swyddogion ac aelodau CSYM. Dosbarthwyd gopi o'r adroddiad i bawb oedd yn bresennol. Teimlai ei fod yn gywilyddus nad oedd y swyddogion wedi gadael i'r aelodau lleol ar y pryd wybod blynyddoedd yn ol pan drafodwyd y mater yn wreiddiol. Fe ofynnodd Myrddin Owens i Richard Griffiths gadarnhau bod Cyngor Tref Amlwch yn ymwybodol o'r mater cyn y cyfarfod yn Llangefni gyda'r prif-weithredwr.

Nododd Richard Griffiths nad oedd yn newydd iddo bod Craig y Don wedi ei adeiladu ar dir llwyd, a bod pobl lleol yn ymwybodol o'r ffaith yma hefyd.

Roedd pryderon os oedd CSYM yn ymwybodol o broblem a ddim wedi dweud wrth bobl cyn iddynt

brynu eu tai y byddai problemau enbyd ac achosion llys di-ri. Mae dylestwydd ar CSYM i ddiolgelu ei ddinasyddion. Dim y swyddogion sy'n cynnal y Cyngor, ac mae dylestwydd arnynt i rannu y fath wybodaeth a'r aelodau lleol. Teimlai'r aelodau ei fod yn gywilyddus nad oedd hyn wedi disgwydd. Fyddai posib fod wedi cwblhau'r arolwg tir yn ol yn 2005 heb ddiogelu grant tuag at y gwaith?

Gobeithir byddai'r canlyniadau'r arolwg yn ffafriol – nid oes disgwyl canlyniadau nes diwedd mis Mawrth.

Nodwyd mai Cyngor Bwrdeistref Amlwch (a wedyn CSYM) oedd yn gyfrifol am adeiladu a rhentu Craig y Don ac nid y Cyngor Tref. Mae gan CSYM ddylestwydd i'w denantiaid ac i rheini sydd wedi prynu tai ar y stad. Roedd y Cyngor yn falch bod Arweinydd CSYM wedi cadarnhau byddai arian ar gael i gwblhau unrhyw waith angenrheidiol i ddiogelu trigolion. Cytuno ysgrifennu at yr Arweinydd a Phennaeth yr Adran Dai i gael cadarnhad bod CSYM yn cefnogi HOLL drigolion Craig y Don a byddai arian ar gael tuag at unrhyw waith angenrheidiol ym mhob ty waeth pwy sydd berchen yr eiddo.

Cafwyd wybod bod partneriaeth wedi ei ffurfio er mwyn cadw trigolion lleol yn ymwybodol o'r hyn sy'n mynd ymlaen a sut mae'r prosiect yn datblygu. Bydd cyfarfod i'w gynnal yn ystod yr wythnos Tachwedd 6ed, ac mae cyfle i'r Cyngor Tref anfon pump cynrychiolydd. Nodwyd bydd y tri aelod lleol yn bresennol. Ar gynnig Richard Jones, cytuno penodi Gina Jones, Gerry Belanger a Liz Wood fel cynrychiolwyr Borth Amlwch (bydd Richard Griffiths yn bresennol fel aelod lleol), penodwyd hefyd Myrddin Owens a Gordon Warren gan mai hwy aeth i'r cyfarfod cychwynnol ynglyn a'r mater.

*Myrddin Owens gave a report following the meeting with IACC officers and members. A copy of the report was distributed to all present. He felt it was shameful that the officers had not informed members at that time, years ago when the matter was initially discussed. Myrddin Owens asked Richard Griffiths to confirm that Amlwch Town Council had been made aware of the issue prior to the meeting at Llangefni with the chief executive. Richard Griffiths noted that it was not news to him that Craig y Don had been built on a brown field site, and that many other local people were also aware of this fact.*

*There were concerns that if IACC were aware of the matter and had not informed people prior to selling properties there would be major issues and court cases galore. IACC have a responsibility to safeguard its citizens. It is not the officers that run IACC, and they have a responsibility to share such information with local members. Members felt it was shameful that this was not the case. Would it have been possible to complete the land survey back in 2005 without securing a grant for the work?*

*It was hoped that the survey results are favourable – results are not expected until the end of March.*

*It was noted that it was the Amlwch District Borough Council (later IACC) that was responsible for building and renting Craig y Don and not the Town Council. IACC have a duty of care for their tenants and for those who have purchased properties on the estate. The Council was glad that the IACC Leader had confirmed that funding would be made available to complete any necessary work to safeguard residents. Agreed to write to the Leader and Head of Housing for confirmation that IACC will support ALL Craig y Don residents and that funding will be made available for each property regardless of ownership.*

*The meeting was informed that a partnership had been formed to keep residents up to date with what is going on and how the project is developing. A meeting is to be held during the week commencing November 6<sup>th</sup>, and the Town Council can nominate 5 representatives. It was noted that the three local members would also be attending. On Richard Jones' proposal, agreed to appoint Gina Jones, Gerry Belanger and Liz Wood as Amlwch Port representatives (Richard Griffiths would already be present as a local member), Myrddin Owens and Gordon Warren were also appointed as they had attended the initial meeting regarding the matter.*

## **11 Llithrfa Porth Llechog / Bull Bay Slipway**

Daw cais gan CSYM i gael gosod polion ar draws y llithrfa ym Mhorth Llechog a chynnal system oriadau yn ystod tymor yr haf fel sy'n digwydd mewn lleoliadau eraill ar draws yr ynys. Cafwyd

gynodeb gan y clerc o sut mae'r system yn gweithio ym Mhorth Eilian. Y Cyngor Tref fydd yn gyfrifol am ddsbarthu'r goriadau ar ddechrau'r tymor a'r ad-daliadau ar ddiwedd y tymor. Bydd wardeiniaid CSYM yn monitro'r llithrfa. Bydd unrhyw elw a wnaed o'r cynllun yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng Cyngor Tref Amlwch a CSYM. Cytuno byddai'r cynllun yn gam positif i leihau peth o'r problemau parcio ac yn sicrhau bod pawb sydd a mynediad wedi ei gofrestru gyda CSYM a gyda yswiriant priodol. Y clerc i gadarnhau gyda'r harbwrfeistr er mwyn gwneud trefniadau priodol.

*IACC have asked that bollards are placed on the slipway at Bull Bay and that a key holder scheme is managed throughout the summer season similar to other areas on the island. The clerk gave a summary of how the scheme operates in Llaneilian. The Town Council would be responsible for allocating the keys at the start of the season and for repayment of deposits at the end of the season. IACC wardens will be monitoring the slipway. Any profits made would be equally shared between the Town Council and IACC. Agreed that the scheme would be a positive step towards addressing parking issues and to ensure that all with access have registered with IACC and have adequate insurance. The clerk to confirm with the harbourmaster to make the necessary arrangements.*

## **12 Gohebiaeth/Correspondence**

- 12.1** Peiriant Arian Parod - Daw ebost gan aelod o'r gymuned yn pryderu am ddiffyg peiriannau arian parod yn y dref. Mae ymateb wedi ei anfon yn nodi bod peiriant newydd i'w osod yn Stryd Mona.

*Cash Machine – an email from a community member voicing concern at the lack of cash machines in the town. A response has been sent noting that a new machine is to be installed at Mona Street.*

- 12.2** Dwr Cymru – daw gwybodaeth gan y cwmni am waith sydd yn cymryd lle yn y dref ar hyn o bryd. Mae'r wybodaeth wedi dod drwy ebost hefyd ac wedi ei anfon ymlaen at yr aelodau er gwybodaeth.

*Welsh Water – information from the company regarding ongoing work in the town at present. The information has also come via email and has been sent out to all members for information.*

- 12.3** Taliadau Claddu Plant – daw cais am wybodaeth gan Llywodraeth Cymru. Cytuno na fyddai'r Cyngor yn codi am gladdu plant dan 18 mlwydd oed o hyn allan.

*Burial Charges for Children – a request for information from the Welsh Government. Agreed that the Council would not charge for the burial of children under 18 years old from now on.*

- 12.4** Goleuadau Nadolig Porth Amlwch – daw cais gan y grwp i gael lleoli coeden Nadolig a'r arddangosfa ym Mhorth Amlwch dros gyfnod y Nadolig. Cytuno yn unfrydol ar yr un amodau ag arfer sef bod y grwp yn cadarnhau bod ganddynt yswiriant digonol.

*Amlwch Port Christmas Lights – the group have asked for approval to display their Christmas tree and nativity scene at the Port during the festive season. Agreed unanimously on the same conditions as before i.e. the group to confirm that they have adequate insurance.*

- 12.5** Panel Adolygiad Annibynnol – daw gwybodaeth am ymgynghoriad ar ddyfodol cynghorau tref a chymuned. Cytuno anfon y wybodaeth i'r aelodau cyn y cyfarfod nesaf er gwybodaeth a cynnwys yr eitem ar yr agenda am drafodaeth llawn.

*Independent Review Panel – information regarding a consultation on the future of town and community councils. Agreed to send the information out to all members prior to the next meeting and to include as an agenda item for further discussion.*

## **13 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

### **13.1 Cloc y Dref / Town Clock**

Mae angen gwirfoddolwr i weindio cloc y dref yn wythnosol. Fe ofynnwyd a fyddai un o'r aelodau a diddordeb. Nid oedd diddordeb ag ymgymryd a'r rol. Bydd Gordon Warren yn gwneud ymholiadau.

*A volunteer is needed to wind the town clock on a weekly basis. It was asked whether any of the members would be interested. No one showed an interest in the role. Gordon Warren would make enquiries.*

### **13.2 Maes Llwyn**

Nid oes diweddariad am ail-leoli'r cae chwarae. Richard Griffiths i wneud ymholiadau pellach ac adrodd yn ol cyn gynted a phosib.

*There is no update regarding the relocating of the play area. Richard Griffiths to make further enquiries and report back as soon as possible.*

### **13.3 Offer Chwarae Wylfa Play Equipment**

Cadarnhawyd na fyddai posib gosod offer chwarae Wylfa yn Lon Wen gan mai ar gyfer Craig y Don oeddent wedi eu sicrhau. Ni fydd yr offer yn cael eu gosod nes wedi'r arolwg tir gael ei gwblhau.

*It was confirmed that it would not be possible to install the Wylfa play equipment at Lon Wen as it had been secured for Craig y Don. The equipment will not be installed until after the land survey has been completed.*

### **14 Dyddiad y cyfarfod nesaf/Date of next meeting**

Bydd y cyfarfod nesaf i'w gynnal Nos Fawrth Tachwedd 28 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor.  
*The next meeting will take place on Tuesday November 28 at 7pm in the Council Chamber.*

Bu'r cyfarfod orffen am 20.20 / *The meeting closed at 20.20.*

CET10/2017

**Arwyddwyd / Signed:**  
**Gareth Winston Roberts OBE**  
**Cadeirydd / Chair**